OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2018 No. 1216

## Rheoliadau yr Amgylchedd, Cynllunio a Materion Gwledig (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2018

## RHAN 3

Diwygiadau i is-ddeddfwriaeth sy'n ymwneud â chynllunio

### Rheoliadau Asesiadau Amgylcheddol o Gynlluniau a Rhaglenni (Cymru) 2004

**17.**—(1) Mae Rheoliadau Asesiadau Amgylcheddol o Gynlluniau a Rhaglenni (Cymru) 2004(**1**) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 2(1), yn y diffiniad o "y Gyfarwyddeb Cynefinoedd" ("*the Habitats Directive*"), yn lle "fel y'i diwygiwyd ddiwethaf gan Gyfarwyddeb y Cyngor 97/62/EC" rhodder ", fel y'i diwygir o bryd i'w gilydd".

(3) Yn rheoliad 5(2)(b), yn lle "Gyfarwyddeb y Cyngor 85/337/EEC ar asesu effeithiau prosiectau cyhoeddus a phreifat penodol ar yr amgylchedd, fel y'i diwygiwyd gan Gyfarwyddeb y Cyngor 97/11/EC" rhodder "Gyfarwyddeb 2011/92/EU Senedd Ewrop a'r Cyngor ar asesu effeithiau prosiectau cyhoeddus a phreifat penodol ar y amgylchedd(**2**), fel y'i diwygir o bryd i'w gilydd".

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** Rhl. 17 mewn grym ar 17.12.2018, gweler **rhl. 1(3)**

### Rheoliadau Cynllunio (Sylweddau Peryglus) (Cymru) 2015

**18.**—(1) Mae Rheoliadau Cynllunio (Sylweddau Peryglus) (Cymru) 2015(**3**) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn Atodlen 1—

(a) yn Rhan 1, colofn 1, adran 'P', ar ôl "Reoliad (EC) Rhif 440/2008" mewnosoder "fel y'i diwygir o bryd i'w gilydd";

(b) yn Rhan 4—

(i) ym mharagraff 11(1), ar ôl "chyflenwyr erosol", yn y lle cyntaf y mae'n digwydd, mewnosoder "fel y'i diwygir o bryd i'w gilydd";

(ii) ym mharagraff 13(a), ar ôl "gwrteithiau" mewnosoder "fel y'i diwygir o bryd i'w gilydd";

(iii) ym mharagraffau 14 ac 16(b), ar ôl "Reoliad (EC) Rhif 2003/2003", ym mhob lle y mae'n digwydd, mewnosoder "fel y'i diwygir o bryd i'w gilydd".

(**1**) O.S. 2004/1656 (Cy. 170).
(**2**) OJ Rhif L 26, 28.1.2012, t. 1.
(**3**) O.S. 2015/1597 (Cy. 196), y mae diwygiadau iddo nad ydynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.

(3) Yn Atodlen 2, ym mharagraff 6(a), yn lle "Erthygl 3(1)(b) o Reoliad (EC) Rhif 1102/2008 Senedd Ewrop a'r Cyngor ar wahardd allforio mercwri metelaidd a chyfansoddion a chymysgeddau penodol mercwri a storio mercwri metelaidd yn ddiogel" rhodder "Erthygl 13(1) o Reoliad (EU) 2017/852 Senedd Ewrop a'r Cyngor ar fercwri, ac sy'n diddymu Rheoliad (EC) Rhif 1102/2008(**4**), fel y'i diwygir o bryd i'w gilydd".

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I2** Rhl. 18 mewn grym ar 17.12.2018, gweler **rhl. 1(3)**

**Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Asesu Effeithiau Amgylcheddol) (Cymru) 2016**

**19.**—(1) Mae Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Asesu Effeithiau Amgylcheddol) (Cymru) 2016(**5**) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn Atodlen 1, ym mharagraffau 9 a 10, yn lle "Atodiad IIA i Gyfarwyddeb y Cyngor 75/442/EEC" rhodder "Atodiad I i Gyfarwyddeb 2008/98/EC Senedd Ewrop a'r Cyngor(**6**), fel y'i diwygiwyd ddiwethaf gan Reoliad y Cyngor (EU) 2017/997(**7**)".

(3) Yn Atodlen 2, ym mharagraff 2, yn rhes 3(g) o golofn 2 o'r tabl, ym mharagraff (ii), yn lle "Reoliadau Trwyddedu Amgylcheddol (Cymru a Lloegr) 2010" rhodder "Reoliadau Trwyddedu Amgylcheddol (Cymru a Lloegr) 2016(**8**)".

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I3** Rhl. 19 mewn grym ar 17.12.2018, gweler **rhl. 1(3)**

**Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Asesu Effeithiau Amgylcheddol) (Cymru) 2017**

**20.**—(1) Mae Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Asesu Effeithiau Amgylcheddol) (Cymru) 2017(**9**) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn Atodlen 1, ym mharagraffau 9 a 10, yn lle "Atodiad IIA i Gyfarwyddeb y Cyngor 75/442/EEC" rhodder "Atodiad I i Gyfarwyddeb 2008/98/EC Senedd Ewrop a'r Cyngor, fel y'i diwygiwyd ddiwethaf gan Reoliad y Cyngor (EU) 2017/997,".

(3) Yn Atodlen 2, ym mharagraff 2, yn rhes 3(g) o golofn 2 o'r tabl, ym mharagraff (ii), yn lle "Reoliadau Trwyddedu Amgylcheddol (Cymru a Lloegr) 2010" rhodder "Reoliadau Trwyddedu Amgylcheddol (Cymru a Lloegr) 2016".

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I4** Rhl. 20 mewn grym ar 17.12.2018, gweler **rhl. 1(3)**

(**4**) OJ Rhif L 137, 24.5.2017, t. 1.
(**5**) O.S. 2016/58 (Cy. 28).
(**6**) OJ Rhif L 312, 22.11.2008, t. 3.
(**7**) OJ Rhif L 150, 14.6.2017, t. 1.
(**8**) O.S. 2016/1154.
(**9**) O.S. 2017/567 (Cy. 136).

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Rheoliadau yr Amgylchedd, Cynllunio a Materion Gwledig (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2018, RHAN 3.